# TGAU

3000N30-1A

S19-3000N30-1A

# CYMRAEG IAITH

**Uned 3**
**Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Cyfarwyddiadol a Pherswâd**

DYDD GWENER, 10 MAI 2019 – BORE

2 awr

**DEUNYDD DARLLEN I'W DDEFNYDDIO GYDAG ADRAN A**

3000N301A 01

© WJEC CBAC Cyf.

**DARN DARLLEN 1**

# Geid i'r Gwyliau

**Cylchgrawn Y Selar,** Rhif 49 Mehefin 2017

| TAFWYL | SESIWN FAWR | GŴYL 'NÔL A MLA'N | PARTI PONTY |
|---|---|---|---|
| **Lle:** Caeau Llandaf, Caerdydd<br>**Pris:** Am ddim!<br>**Beth:** Dim ond yr Eisteddfod all gystadlu â Thafwyl o ran grwpiau. Gyda deuddydd o gerddoriaeth ar dri llwyfan, byddai'n haws rhestru'r bandiau a'r artistiaid sydd DDIM yn chwarae yno eleni! | **Lle:** Y Sgwâr, Dolgellau<br>**Pris:** £35 am docyn penwythnos<br>**Beth:** Bydd llwyfan i rai o artistiaid gwerin amlycaf Cymru a thu hwnt. Grwpiau o'r Alban, Lloegr, Iwerddon a Hwngari fydd yn rhoi blas rhyngwladol yn ogystal ag ambell fand lleol fel Sŵnami.<br>**Ffaith Selar:** Does unman yng Nghymru ymhellach na thair awr yn y car o Ddolgellau. | **Lle:** Tafarndai'r Llong a'r Pentre Arms, Llangrannog<br>**Pris:** Am ddim!<br>**Beth:** Elin Fflur fydd yn serennu nos Wener yn yr ŵyl ddeuddydd hon ar arfordir Ceredigion. Bydd rhywbeth at ddant pawb wrth i chi ymlwybro 'nôl a mla'n rhwng y ddwy dafarn. Daw'r ŵyl i ben mewn steil gydag Yr Eira ac Yws Gwynedd.<br>**Tip y Selar:** Gallwch wersylla yn yr ŵyl fach hon sydd wedi ei lleoli yn un o ardaloedd prydferthaf Cymru, felly gwnewch benwythnos hir ohoni. | **Lle:** Parc Ynysangharad, Pontypridd<br>**Pris:** Am ddim!<br>**Beth:** Gŵyl deuluol gyda chymysgedd o artistiaid lleol fel Chroma ac EÄDYTH yn chwarae yn eu cynefin. Bydd Pabell Cymryd Rhan a Phabell Ysgolion Cynradd felly fe ddylai fod yn ddiwrnod bendigedig gyda digon o stondinau, cerddoriaeth a gweithdai i gadw pawb yn hapus! |



**DARN DARLLEN 2**

**Goroesi Gŵyl – Rhestr wirio**
O Glastonbury i Faes B, mae gwersylla a goroesi mewn gŵyl yn dipyn o gamp! Paid â chamu o'r tŷ heb wirio ac ailwirio'r rhestr hon o'r pethau hanfodol y dylet ti eu pacio.

| | |
|---|---|
| 1 | **Tocyn**<br>Pryna dy docyn ymlaen llaw rhag cael dy siomi. |
| 2 | **Arian parod**<br>Gofala fod gennyt ti ddigon o arian parod ac un cerdyn banc ar gyfer unrhyw argyfwng. |
| 3 | **Cerdyn Adnabod**<br>Chei di ddim mynediad i ambell ŵyl heb brofi pwy wyt ti.  |
| 4 | **Pabell**<br>Dewisa babell ddigon mawr. Os oes dau yn bwriadu ei defnyddio, pryna un sy'n cysgu tri fel bod gennyt ti le i gadw dy fagiau. |
| 5 | **Tortsh**<br>Hanfodol ar gyfer tripiau i'r toiledau yn y nos. |
| 6 | **Sach gysgu a chas gobennydd**<br>Rowlia dy ddillad a'u rhoi yn y cas gobennydd i greu clustog braf. |
| 7 | **Plygiau clustiau**<br>Angenrheidiol os wyt ti am sicrhau awr neu ddwy o gwsg. Bydd rhai yn partïo drwy'r nos!  |
| 8 | **Dillad glaw a dillad cynnes**<br>Gyda thywydd Cymru mor gyfnewidiol, pacia fel dy fod yn barod ar gyfer pob tywydd. |
| 9 | **Het ac eli haul**<br>Does fawr ddim cysgod mewn gŵyl. Pacia'r rhain i osgoi llosgi neu ddioddef twymyn haul. |
| 10 | **Ffôn a gwefrwr batri**<br>Gofala fod batri dy ffôn yn llawn cyn cychwyn. Gofala fod gwefrwr batri gennyt ti fel dy fod yn gallu cael gafael ar dy ffrindiau os wyt ti'n eu colli.  |
| 11 | **Papur toiled, jél llaw gwrthfacteria, weips gwlyb i ymolchi**<br>Mae'r uchod yn hollbwysig rhag haint a rhag i ti fynd i ddrewi fel mochyn!  |

3000N301A
03

**DARN DARLLEN 3**

**Tafwyl i'r Teulu Cyfan, i Gymru Gyfan**

TAFWYL | FFAIR TAFWYL | WYTHNOS TAFWYL | NEWYDDION | AMDANOM | CYMRAEG

Mae Caerdydd yn llawn cyffro! Dim ond mis tan Ŵyl Gymraeg Caerdydd, Tafwyl! Dewch draw, mae mynediad i Tafwyl yn rhad ac am ddim.

**37 o ddigwyddiadau** dros 8 diwrnod yn cynnwys gwledd o gerddoriaeth, llenyddiaeth, teithiau tywys, bwyd a diod a digwyddiadau i blant ar draws Caerdydd.




Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys **Bragdy'r Beirdd** – noson o farddoniaeth a chân; **Teithiau Tywys** - cyfle i gerdded o gwmpas Pontcanna a Llandaf.

Bydd amrywiaeth o'r enwau mwyaf ym myd y celfyddydau a'r diwylliant Cymreig yno. **Yws Gwynedd, Alys Williams, Bryn Fôn, Geraint Jarman, Kizzy Crawford, Meic Stevens, Candelas** a **HMS Morris** sydd ymhlith y bandiau sy'n perfformio ar dri llwyfan.

**Bwyd a Diod**
Mae ardal fwyd Tafwyl yn ŵyl ynddi ei hun – gyda thŷ bwyta dros dro **Milgi**, mwy o stondinau bwyd stryd nag erioed o'r blaen a digonedd o fariau. Blaswch y cynnyrch gorau o Gymru ym mhabell bwyd a diod yr ŵyl, **Popty**, gydag arddangosfeydd a sesiynau blasu bwyd a diod.

**Pethau i Blant**
Yn yurt hudolus **Canolfan y Mileniwm** bydd sesiynau celf a chrefft a llond gwlad o ddigwyddiadau celfyddydol i'r teulu i gyd. Draw yn ardal **Bwrlwm** bydd sesiynau garddio, gweithdai printio a bybls anferthol Dr Zigs.


Am y tro cyntaf bydd rêf i blant gyda **DJ Gareth Potter**, *glitter, glow sticks* a llawer o hwyl!

**Pethau i Bobl Ifanc**
Bydd hefyd ardal ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau yn **Yurt T**, gan gynnwys perfformiadau gan **Mabli Tudur** a **Patrobas**, gweithdai celf, cystadlaethau a llawer mwy.

**Chwaraeon**
**Chwaraeon yr Urdd** sydd yn cydlynu amserlen lawn dop o sesiynau pêl-droed, rygbi, golff, athletau a hoci. Rhowch gynnig ar un o'r campau gyda **Chymdeithas Pêl-Droed Cymru, Go Air** a phartneriaid eraill.

**Dysgwyr**
Ym Mhabell y Dysgwyr bydd gwesteion diddorol fel actorion **Pobol y Cwm** a gweithdy *Macbeth* gyda **Theatr Genedlaethol Cymru**.

**Dewch draw – mae Tafwyl i'r teulu cyfan. Bydd rhywbeth at ddant pawb.**








Trowch y dudalen.

# TUDALEN WAG

**DARN DARLLEN 4**

# Tafwyl 'Gŵyl genedlaethol' – nid dim ond i Gaerdydd

**Mehefin 27, 2017**

Yn ôl trefnwyr Tafwyl, mae'r digwyddiad bellach yn un i Gymru gyfan ac nid dim ond i bobl Caerdydd, gan fod tua hanner y bandiau a'r stondinwyr yn dod o'r gogledd.

Daeth tua 36,000 i fwynhau arlwy'r ŵyl y llynedd a bydd miloedd yno eto ar y penwythnos olaf eleni - gyda llawer wedi heidio i'r brifddinas o bob cwr o'r wlad.

"Mae hi'n ŵyl genedlaethol erbyn hyn," meddai Llinos Williams o Fenter Iaith Caerdydd, sy'n trefnu'r jamborî, "ac ers i ni droi yn ddigwyddiad penwythnos tros ddeuddydd, mae pobol yn gallu aros am y noson a gwneud penwythnos ohoni. Mae ein stondinwyr ni, y celf a chrefft, a hanner y bandiau yn dod o'r gogledd."

**Am ddim**

Un o nodweddion unigryw Tafwyl yw bod yr ŵyl am ddim – ac mae'r trefnwyr yn talu'r costau drwy grant o £20,000 gan Lywodraeth Cymru a £40,000 o nawdd gan fusnesau lleol.

"Hefyd rydan ni yn gwneud ryw £30,000 o incwm dros y penwythnos drwy'r bar a'r bwyd a'r stondinau sy'n cyfrannu at y costau," eglura Llinos Williams sy'n falch bod yr ŵyl am ddim. "Rydan ni eisiau denu pobol newydd i fwynhau Tafwyl a'i chadw yn ŵyl hollol agored i bawb."



**DARN DARLLEN 5**

# Diwedd y Gân yw'r Geiniog - Gŵyl Gopr Amlwch yn dod i ben

**Ionawr 23, 2017**

Mae trefnwyr Gŵyl Gopr Amlwch, Ynys Môn, wedi cyhoeddi na fydd yr ŵyl gerddorol yn cael ei chynnal y flwyddyn nesaf. Yn ôl un o drefnwyr yr ŵyl Arwel Hughes, "Pres yw'r brif broblem. Mae casglu £34,000 bob blwyddyn yn mynd yn anoddach, ac Awst y llynedd roedden ni £19,000 yn brin… hefyd mae gofynion iechyd a diogelwch y wlad yn mynd yn fwy tynn."

Wrth siarad am yr her ariannol o gynnal yr ŵyl gofynnodd, "Pam does 'na ddim grant? Os wyt ti'n medru profi bod ti 'di sefydlu gŵyl fel hon a'i bod hi'n helpu'r gymuned gymaint ac yn tynnu pobl i gydweithio, pam dydyn nhw ddim yn rhoi pres i wyliau o'r fath? Ers i'r Ŵyl Gopr gael ei chynnal y tro cyntaf, rydym yn amcangyfrif bod tua 150,000 o bobl wedi dod i fwynhau a chymdeithasu a'n bod wedi rhoi llwyfan i 250 o fandiau. Roedd hi'n wych croesawu cymaint o bobl i Amlwch, yn gefnogwyr a pherfformwyr bob haf!  Dyna ddangos llwyddiant grŵp bach o bobl benderfynol!"

Mewn datganiad, diolchodd y Cynghorydd Ieuan Williams i bwyllgor trefnu'r ŵyl gan ddweud, "Maen nhw wedi rhoi 10 mlynedd o adloniant ardderchog i ni ac wedi rhoi Amlwch ar y map. Yn bersonol, rydw i wedi mwynhau sawl noswaith o wrando ar gerddoriaeth fyw gyda theulu a ffrindiau. Dros y degawd, tyfodd Gŵyl Gopr Amlwch yn ddigwyddiad allweddol yng nghalendr Môn yn denu ymwelwyr o bob cwr o Gymru i ddathlu diwylliant ein gwlad drwy fwynhau cerddoriaeth unigryw Gymraeg a Chymreig."



**DARN DARLLEN 6**

# Hwyl ar y Gwyliau?

10 Mai 2015

Ywain Myfyr, un o sefydlwyr y Sesiwn Fawr yn Nolgellau sy'n ateb cwestiynau BBC Cymru Fyw.

**Beth yw oes gŵyl?**

10 mlynedd ar y mwyaf ydy oes gŵyl, tair blynedd i'w sefydlu, pedair blynedd yn ei hanterth a thair blynedd i ddirywio.

**Pam mae cymaint o wyliau llwyddiannus fel y Cnapan a Gŵyl y Gwyniaid wedi dod i ben?**

Un ffactor yw bod rheolau iechyd a diogelwch wedi ychwanegu costau anferthol at wyliau.

Os ydy'r digwyddiad yn denu cynulleidfa fawr rhaid cael stiwardiaid cofrestredig, gwasanaeth yr heddlu, y gwasanaeth ambiwlans, ffensys diogelwch ac yn y blaen. Mae costau sylweddol yn mynd law yn llaw efo gwasanaethau fel hyn. Yn ei hanterth fe wynebodd Sesiwn Fawr Dolgellau gostau o £15,000 i'r heddlu (na fu ar y safle) a bron i £15,000 arall i gwmni stiwardio - gorffwylledd!

**Beth sy'n gwneud y Sesiwn Fawr yn arbennig?**

Mae'r Sesiwn Fawr wedi dathlu ei phen-blwydd yn 25 a thros y blynyddoedd bu'n ffenestr siop wych i gyflwyno cerddoriaeth Gymraeg. Denodd ymwelwyr o bell ac agos i dref Dolgellau gan roi hwb i'r economi leol. Yr un yw'r atynfa bob blwyddyn, cyfle i fwynhau cymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg a gwrando ar artistiaid sy'n cynrychioli diwylliant Cymru ar ei orau.

**Oes dyfodol disglair i'r Sesiwn Fawr?**

Bu'n ymdrech gennym fel trefnwyr i newid pethau'n gyson. Mae angen i bob gŵyl lwyddiannus newid a darganfod pethau newydd, rhai er gwell a rhai er gwaeth.



# TUDALEN WAG

TUDALEN WAG